

Cyngor Sir Ynys Môn	
Cyfarfod:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	25 Medi 2019
Teitl yr adroddiad:	Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn
Adroddiad gan:	Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
Pwrpas yr adroddiad:	Ystyried cynigion cychwynnol a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir.

1.0 Cefndir

- 1.1 Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiadau cyfnodol o drefniadau etholiadol prif ardaloedd Cymru. Mae'r Comisiwn bellach yn gwahodd sylwadau rhanddeiliaid ar drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn. Y bwriad yw cyflwyno newidiadau erbyn etholiadau 2022.

2.0 Datblygu cynigion cychwynnol

- 2.1 Fe sefydlwyd panel traws bleidiol er mwyn datblygu cynigion a llunio argymhellion i'r Pwyllgor hwn. Fel rhan o'r broses, mae'r panel wedi gofyn am sylwadau holl Aelodau'r Cyngor trwy'r Arweinyddion Grwpiau ac wedi cyfarfod pedair gwaith, ar y dyddiadau canlynol:

25 Gorffennaf 2019
1 Awst 2019
4 Medi 2019
17 Medi 2019

- 2.2 Mae'r Panel wedi datblygu cynigion sy'n argymhell cynyddu nifer yr aelodau i 35, gyda 14 o ranbarthau etholiadol – gweler atodiad 1.

3.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

- 3.1 Ystyried cynigion y Panel (atodiad 1).
- 3.2 Yn amodol ar unrhyw sylwadau pellach, argymhell i'r Cyngor Sir bod y cynigion yn cael eu derbyn fel ymateb cychwynnol y Cyngor Sir.

- 3.3 Nodi y bydd angen i'r Pwyllgor hwn ystyried cynigion drafft y Comisiwn yn ystod Gwanwyn 2020 a llunio argymhellion i'r Cyngor Sir.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

18 Medi 2019

Adolygiad y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn – ymateb y Cyngor

1) Cefndir

Mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn") gynnal adolygiadau cyfnodol o drefniadau etholiadol prif ardaloedd Cymru.

Cynhaliodd y Comisiwn adolygiad cynhwysfawr o drefniadau etholiadol Ynys Môn yn 2011/12 dan gyfarwyddyd y Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd. Roedd dwy egwyddor bwysig yng nghyfarwyddiadau'r Gweinidog sef:

- 1) yr angen i symud o wardiau etholiadol sengl i wardiau aml-aelod,
- 2) yr angen i wardiau fod yn weddol gyfartal o ran nifer etholwyr.

Yn sgil yr adolygiad cyflwynwyd model ar sail patrwm o 11 ward aml-aelod o 2/3 a chyfanswm o 30 Aelod (gostyngiad o 25%). Derbyniwyd hyn gan y Cyngor Sir ar 27 Mehefin 2012. Mae'r trefniant hwn wedi bod yn weithredol ers etholiadau 2013.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Panel traws bleidiol er mwyn paratoi cynnig i'r Comisiwn ystyried.

2) Llunio cynigion cychwynnol ymateb i ymghynghoriad y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn Ffiniau bellach yn gwahodd sylwadau rhan-ddeiliaid ar drefniadau etholiadol Cyngor Sir Ynys Môn. Y bwriad yw cyflwyno newidiadau erbyn etholiadau 2022.

Y broses a'r amserlen

Mae Aelodau eisoes wedi derbyn cyflwyniad gan y Comisiwn (sesiwn briffio Mehefin 2019) ar y broses o gynnal yr adolygiad, cyfraniad y Cyngor i'r gwaith o lunio cynigion a hefyd amserlen:

Cam 1 – Dechrau Swydddogol

Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol o 12 wythnos - 19ain Gorffennaf 2019 hyd at 10fed Hydref 2019

Cam 2 – Cynigion Drafft

Y Comisiwn yn datblygu'r Cynigion Drafft ac yn eu cyhoeddi
Cyfnod Ymgynghori 12 wythnos – Gwanwyn 2020

Cam 3 – Cynigion Terfynol

Bydd y Comisiwn yn llunio'r Adroddiad Cynigion Terfynol ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru – Gaeaf 2020

Cam 4 – Ystyriaeth Llywodraeth Cymru

Ar ôl 6 wythnos, gall Llywodraeth Cymru wneud Gorchymyn (cyfle i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru)

Cam 5 – Daw'r Wardiau i Rym

Daw'r wardiau newydd i rym ar gyfer etholiad llywodraeth leol 2022.

3) Meini prawf

Mae'r Comisiwn yn dilyn gweithdrefnau a methodoleg ar gyfer adolygiadau o'r fath- gweler dogfen y Comisiwn: Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer 2016:

<https://cffdl.llyw.cymru/sites/ldbc/files/publications/161110policyandpracticecy.pdf>

Mae nifer o feini prawf statudol yn berthnasol i'r adolygiad:

- Cydraddoldeb etholiadol
 - Nifer gorau posibl yr etholwyr fesul cynghorydd
 - Rhagolwg pum mlynedd
 - Y rhai sy'n gymwys i bleidleisio (lle bo hynny'n bosibl)
- Hunaniaeth gymunedol
 - Ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod a defnyddio ardaloedd cymunedol a'r wardiau presennol fel sylfeini
 - Peidio â chwalu cysylltiadau lleol
- Llywodraeth leol effeithiol
 - Wardiau etholiadol dealladwy sydd â buddiannau cyffredin a chysylltiadau mewnol da

Hefyd bydd yr arolwg yn cwmpasu'r ardal ddaearyddol gyfan, ac nid lle mae lefelau o anghydraddoldeb etholiadol yn unig. Mae cyfle felly i'r Cyngor gyflwyno sylwadau ar yr agweddau canlynol:

- Cyfanswm nifer y cynghorwyr
- Nifer a ffiniau wardiau
- Nifer y cynghorwyr ar gyfer pob ward
- Enwau wardiau

4) Cymhwyso maint Cyngorau

Mae'r Comisiwn wedi gosod cyfyngiadau ar faint cyngorau:

- Lleiafswm o 30 aelod ac uchafswm o 75 aelod
- Cyfyngu cynnydd yn nifer ar aelodau i 10% mewn unrhyw adolygiad h.y 33 ond bod modd gwneud achos dros fwy o aelodau mewn eithriadau. Mae'r Comisiwn yn cydnabod, ar sail amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf ONS ar gyfer Ynys Môn (bron i 70,000), mai nŵd cyffredinol ar gyfer maint y Cyngor yw 35 aelod – 1:2000 etholwyr.

Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn 51,130 o etholwyr -1 Aelod i 1,704 ar gyfartaledd. Byddai cynyddu maint y Cyngor i 33 yn unol â nod y Comisiwn yn golygu 1 Aelod i – 1,549.

Mae methodoleg y Comisiwn felly yn awgrymu Awdurdod o 33 Cyngorydd ar sail 1 Cyngorydd i 1,549 (lle mae modd cyflawni hyn mor agos â phosib).

Mae **Atodiad 1** gan y Comisiwn yn nodi lle mae'r amrywiadau mwyaf ar hyn o bryd o ran y cyfartaledd sirol sef yn wardiau Canolbarth Môn, Bro Rhosyr a Llifon.

5) Ymateb ac argymhellion y Panel

Mae'r Panel yn dymuno cyflwyno achos i gynyddu nifer y Cyngorwyr i **35** fel yr adnabyddir gan y Comisiwn yn y methodoleg ar gyfer penderfynu ar ddyrannu Cyngorwyr, a hynny heb ddefnyddio'r cap ar gynydd o 10% i'r aelodaeth bresennol. Mae'n siomedig bod y Comisiwn yn dymuno gweithredu'r cyfyngiad yma, pan mae'r Cyngor yma â hawl i 35 o aelodau, yn seiliedig ar y boblogaeth cyfredol o 70,000, gyda chynnydd tymhorol sylweddol i'r boblogaeth o ganlyniad i niferoedd ymwelwyr. Ar y cyfan, daeth oddeutu 1.7 miliwn o ymwelwyr i Ynys Môn yn ystod 2018, gan ddod â phwysau ychwanegol ar y galw am wasanaethau lleol. Fe ddylai'r Comisiwn Ffiniau gyfiawnhau ei safiad yn nhermau'r angen am gynrychiolaeth leol effeithiol i'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys cynnydd tymhorol.

Yn ystod yr adolygiad diwethaf gan y Comisiwn yn 2012, roedd gostyngiad o 25% i Gynghorwyr ac fe gyflwynwyd wardiau aml-aelod. Mae cynyddu'r aelodaeth i 35 yn angenrheidiol er mwyn cwrdd â gofynion llywodraethu'r Cyngor, gan gadw mewn golwg llwyth gwaith presennol y cynghorwyr.

Mae'r Panel yn cefnogi'r syniad o barhau gyda'r wardiau aml-aelod ar gyfer pob ward a gyflwynwyd yn 2013. Fodd bynnag, mae'n dymuno cyfleu siomedigaeth am y diffyg cysondeb amlwg o ran gweithredu model aml-aelod yn cyffredinol yn yr adolygiadau eraill a gynhaliwyd eisoes gan y Comisiwn ers cychwyn y rhaglen i adolygu'r 22 awdurdod. Mae trefniadau etholiadol y Cyngor Sir yn unigryw yng Nghymru gan mai dyma'r unig awdurdod lle mae pob ward yn rai aml-aelod. Mae yna enghreifftiau ar draws Cymru o wardiau

aml-aelod – hyd at 5 aelod – ond gwelir y patrwm yma mewn wardiau trefol yn bennaf.

Wedi dweud yr uchod, mae'r Panel yn cydnabod bod yna rinweddau i wardiau aml-aelod, yn nhermau:

- Cydweithio ymysg aelodau, cynllunio lle a rolau arweiniol yn y gymuned,
- Rhannu llwyth gwaith mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd mawr daearyddol, fel cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff llywodraethu, cynghorau cymuned a chyrff lleol eraill,
- Cyfleoedd i ddenu mwy o amrywiaeth o ran ymgeiswyr.

Wrth gynyddu'r aelodaeth i 35, mae'r Panel yn ystyried bod angen cydnabod yr angen hefyd i gydnabod:

1. Baich gwaith y 30 Aelodau presennol- cyfrifoldebau penodol ac aelodaeth ar bwyllgorau mewnol ac allanol -trefniadau cydweithio lleol a rhanbarthol; cynrychiolaeth ar gyrff allanol, gan gynnwys gyrff llywodraethu ysgolion, cynghorau tref a chymuned a hybiau cymunedol lleol.
2. Dylai'r trefniadau etholiadol fod yn rhai syml i'w deall, sy'n gyfarwydd i etholwyr ond yn sicrhau atebolrwydd lleol.
3. Graddfa unrhyw newidiadau i ffiniau wardiau heb amharu yn ormodol ar gysylltiadau cymunedol a ffiniau hanesyddol
4. Sicrhau cydraddoldeb o ran nifer etholwyr lle mae hynny'n bosib.
5. Ystyriaethau cymunedol eraill e.e. yn sgil dwysedd amddifadedd gwledig a threfol, a mynediad at wasanaethau lleol – **Atodiad 2.**
6. Cydnabod rôl strategol a rôl darparu gwasanaethau'r 5 thref / y trefi hyn sy'n darparu hybiau gwasanaeth ar gyfer ardaloedd cefn gwlad eang, ac mae gan aelodau'r ardaloedd hyn lwyth gwaith ychwanegol yn sgil y rôl honno ac ymwneud a fforymau cymunedol/adfywio lleol.
7. Dadleuon ynghylch cysylltiadau cymunedol sy'n cyfiawnhau lefelau annodweddiadol o gydraddoldeb etholiadol.
8. Nid oes modd cyfiawnhau newidiadau ar draws y bwrdd ac y dylid canolbwyntio ar wardiau Canolbarth Môn, Llifon, Rhosyr, Talybolion a Chaergybi, lle mae rhai newidiadau'n cael eu hargymell – er mwyn cael cydraddoldeb etholiadol, lleihau'r ôl troed daearyddol, aliniad cymunedol lle mae hynny'n bosib, a'r galw lleol ar gynrychiolwyr democrataidd.

Mae'r Panel hefyd wedi gwneud argymhellion o ran enwau rhai o'r wardiau cyfredol/newydd er mwyn adlewyrchu nodweddion yr ardal a'r cysylltiadau hanesyddol/daearyddol lleol.

Mae model 35 aelod yn golygu 1 cynghorydd i 1,472 o etholwyr (ffigyrau 2019). Ar hyn o bryd paratowyd yr opsiynau isod ar sail nifer etholwyr Awst 2019 ac nid rhagdybiaeth nifer etholwyr yn 2024, sy'n awgrymu cyfanswm o 4,000 o gynnydd. Gweler y map - Atodiad 3.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r model a gynigir, yn seiliedig ar 14 o wardiau:

Ward	Nifer Cynghorwyr/ Number of Members	Etholwyr / Electors (Awst/August 2019)	Cymhareb/ Ratio
Aethwy	3	5064	1688
Bro Aberffraw	2	2977	1498
Braint	2	2712	1356
Parc a'r Mynydd	2	2515	1257
Tref Cybi	2	2799	1399
Canolbarth Môn	3	3889	1296
Cefni	2	2398	1199
Crigyll	2	2558	1279
Bro'r Llynnoedd	2	3634	1817
Lligwy	3	4753	1584
Seiriol	3	4600	1533
Talybolion	3	3869	1289
Twrcelyn	3	5399	1799
Ynys Gybi	3	4338	1446

Cynigion penodol

Mae manylion isod ar gyfer pob ardal etholiadol.

Tabl 1 – Aethwy									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	5,015	1,672	-2%	8%	5,164	1,721	-6%	3%	5,500
Mae'r Panel yn argymhell dim newid i'r trefniant presennol.									

Tabl 2 – Bro Aberffraw									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
2	2,967	1,484	-13%	-4%	3,175	1,588	-14%	-5%	3,211
Mae'r Panel yn argymhell dim newid i'r trefniant presennol.									

Tabl 3 – Bro Rhosyr									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
2	3,833	1,917	12%	24%	4,269	2,135	16%	28%	3,912
Mae'r Panel yn argymhell newidiadau: Awgrymir newid yn sgil % amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol a hefyd nodweddion cymunedol y ward bresennol a chysylltiadau gogledd y ward ag ardal Llangefni - dalgylch ysgol Uwchradd Ysgol Gyfun Llangefni yn benodol. Argymhellir y dylai cymuned Llangristiolus, sy'n ffinio â ward Cefni (Llangefni) sydd ar hyn o bryd yn rhan o ward Canolbarth Môn symud o ward Bro Rhosyr er mwyn creu ward newydd efo ward Cefni. Mae yna gysylltiadau cludiant cyhoeddus gyda Llangefni a chysylltiadau cymunedol agos gyda'r dref. Hefyd, mae'r ardal yma'n rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Llangefni a chysylltiadau agos â chyfleusterau cymunedol. Byddai'r newid hwn o fewn Bro Rhosyr yn golygu ward 2 aelod o 2,712 – 1 cynghorydd i 1,356. Enw: Mae'r Panel yn argymhell newid enw Bro Rhosyr i Braint er mwyn adlewyrchu nodweddion daearyddol lleol.									

Tabl 4 – Caergybi									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	5,250	1,750	3%	13%	6,064	2,021	10%	21%	5,982
Mae'r Panel yn argymhell newidiadau: Mae'r ward n cynnwys ardaloedd o amddifadedd uchel – gweler Atodiad 4. Hefyd dwysedd stoc tai cyhoeddus uchel a nifer o hybiau cymunedol sy'n ychwanegu at lwyth gwaith aelodau lleol sy'n gwasanaethu mewn ardal drefol. Mae'r Panel yn argymhell: a) Creu ward newydd o 2 aelod drwy gyfuno wardiau Parc a'r Mynydd a Porthyfelin. Nifer etholwyr- 2,515. 1 cynghorydd i 1,257. Enw: Mae'r Panel yn argymhell y dylid enwi'r ward yn Parc a'r Mynydd oherwydd nodweddion lleol. b) Cyfuno'r wardiau canlynol er mwyn creu ward newydd efo 2 aelod - y Dref, Morawelon a Ffordd Llundain. Nifer etholwyr – 2,799. 1 cynghorydd i 1,399. Enw: Mae'r Panel yn argymhell Tref Cybi oherwydd nodweddion lleol.									

Tabl 5 – Canolbarth Môn									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	6,428	2,143	26%	38%	6,973	2,324	26%	39%	7,119

Mae'r Panel yn argymhell newidiadau: Mae'r % amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol yn uchel ar sail y nifer gyfredol o etholwyr. Mae'n ardal ddaearyddol fawr. Rhai cymunedau heb gysylltiad naturiol efo Llangefni e.e Bryngwran a Gwalchmai - dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern yn hytrach na Llangefni. Mae Llangefni yn gwasanaethu fel hwb trefol ar gyfer ardaloedd cyfagos. Dwysedd stoc tai cyhoeddus yn uchel mewn rhai wardiau yn Llangefni .Gweler profil amddifadedd.

Mae'r Panel yn argymhell y newidiadau canlynol:

a) Creu ward newydd 2 aelod - cymunedau Trewalchmai, Bryngwran a Llanfaelog (ar hyn o bryd yn rhan o ward Llifon). Nifer etholwyr- 2,558. 1 cynghorydd i 1,279. Mae'r ward newydd hon yn nalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern.

Enw: Mae'r Panel yn argymhell Crigyll oherwydd nodweddion daearyddol lleol.

b) Creu ward newydd 2 aelod drwy gyfuno ward Cefni o gymuned Llangefni gyda chymuned Llangristiolus (yn Bro Rhosyr ar hyn o bryd), oherwydd cysylltiadau cymunedol agos a chyswllt cymunedol amlwg gyda Llangefni - ysgol uwchradd. Nifer etholwyr 2,398. 1 aelod i 1,199.

Enw: Mae'r Panel yn argymhell Cefni oherwydd nodweddion daearyddol lleol.

Ar sail data etholwyr 2019, byddai'r model yma'n creu ward 3 aelod o 3,889 ar gyfer Canolbarth Môn. 1 cynghorydd i 1,296.

Enw: Mae'r Panel yn argymhell dim newid i enw ward Canolbarth Môn.

Tabl 6 – Llifon									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
2	3,996	1,998	17%	29%	4,320	2,160	18%	29%	4,622
Mae'r Panel yn argymhell newidiadau: a) Creu ward newydd 2 aelod - cymunedau Trewalchmai, Bryngwran (ar hyn o bryd yng Nghanolbarth Môn) a Llanfaelog. Nifer etholwyr- 2,558. 1 cynghorydd i 1,279. Mae'r ward newydd hon yn nalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern. Mae cysylltiadau cymunedol rhwng y ward arfaethedig newydd hon a thrafnidiaeth gyhoeddus. Enw: Mae'r Panel yn argymhell y dylid enwi'r ward newydd yn Crigyll oherwydd nodweddion daearyddol lleol. b) Creu ward 2 aelod newydd o gymunedau Caergeiliog, Y Fali a Bodedern (ward Talybolion). Mae'r ward newydd yma o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern ac mae yma gysylltiadau cymunedol lleol, gan gynnwys gofal sylfaenol. Byddai hyn yn creu etholaeth gyda 3,634 etholwyr. 1 cynghorydd i 1,817. Enw – Mae'r Panel yn argymhell Bro'r Llynnoedd er mwyn adlewyrchu nodweddion daearyddol lleol.									

Tabl 7 – Lligwy									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	4,742	1,581	-7%	2%	4,996	1,665	-9%	0%	5,189
Mae'r Panel yn argymhell dim newid i'r trefniant presennol.									

Tabl 8 – Seiriol									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	4,567	1,522	-11%	-2%	4,776	1,592	-13%	-5%	4,902
Mae'r Panel yn argymhell dim newid i'r trefniant presennol.									



Tabl 9 – Talybolion									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	4,644	1,548	-9%	0%	5,046	1,682	-8%	1%	5,038
Mae'r Panel yn awgrymu newidiadau: Me hon yn ardal ddaearyddol helaeth, gan gynnwys 7 o gynghorau cymuned. Argymhellir symud cymuned Bodedern o'r ward yma er mwyn creu ward newydd gyda chymunedau Y Fali a Llanfair-yn-neubwll (gweler y cynigion ar gyfer Llifon uchod). Mae'r ward newydd hon o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Bodedern ac mae yma cysylltiadau cymunedol lleol, gan gynnwys gofal sylfaenol. Byddai hyn yn golygu etholaeth o 3,869 ar gyfer Talybolion, wedi'i gwasanaethu gan 3 Cynghorydd. 1 cynghorydd i 1,289.									


Tabl 10 – Twrcelyn									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	5,385	1,795	5%	16%	5,667	1,889	3%	13%	6,011
Mae'r Panel yn argymhell dim newid i'r trefniant presennol.									

Tabl 11 – Ynys Gybi									
Nifer y Cynghorwyr	Etholwyr Rhagfyr 2019	Cymhareb 2019	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Etholwyr 2024	Cymhareb 2024	% amrywiant presennol o'r cyfartaledd sirol	% amrywiant o'r cyfartaledd sirol arfaethedig (33)	Poblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio
3	4,303	1,434	-16%	-7%	4,682	1,561	-15%	-7%	4,879
Mae'r Panel yn argymhell dim newid i'r trefniant presennol.									

SIR YNYS MON AMRYWIANT PRESENNOL O'R CYFARTALEDD SIROL

ATODIAD 1





Mynegai WIMD Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2016
Welsh Government WIMD December 2016

Cyfanswm / Overall


- 10% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived
- 20% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived
- 30% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived
- 50% Lleiaf Difreintiedig / Least Deprived
- 50% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived
- Wardiau Môn / Anglesey Wards



© Hawfralnt y Goron a hawllau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordnans 100023412 / © Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023412


Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf / You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form


Wardiau Aelodau Lleol Ynys Môn / Anglesey Local Member Wards



Wardiau Aelodau Lleol Caergybi / Holyhead Local Member Wards

ATODIAD/APPENDIX 3





Mynegai WIMD Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2016
Welsh Government WIMD December 2016

Cyfanswm / Overall

- 10% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived
- 20% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived
- 30% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived
- 50% Lleiaf Difreintiedig / Least Deprived
- 50% Mwyaf Difreintiedig / Most Deprived

Wardiau Môn / Anglesey Wards



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019 Arolwg Ordhnans 100023412 / © Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023412

Ni chaniateir i chl gopio, is-drwyddedu, rhannu neu werthu unrhyw ran o'r data yma i drydydd parti mewn unrhyw ffurf / You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form